



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

20 Ebrill 2018

9:30 am – 12:30 pm

Optic, Llanelwy

Yn bresennol:	Y Cyngorydd Gareth Roberts (Cadeirydd), Bethan Jones Edwards, Morwena Edwards, Neil Ayling, Alwyn Jones (ar ran Caroline Turner), Cyngorydd Joan Lowe, Cyngorydd Christine Jones, Charlotte Walton, Vin West, Dave Worrall, Wendy Jones, Jenny Williams, Helen MacArthur, Margaret Hanson Mary Wimbury, Simon Roscoe (ar ran Richard Debicki), Siobhan Adams (ar ran Teresa Owen)
Ymddiheuriadau:	Richard Debicki, Caroline Turner, Teresa Owen, Rob Smith, Cyngorydd Bobby Feeley, Cyngorydd Liz Roberts, Cyngorydd Llinos Medi Huws, Lynda Colwell, Debbie Shaffer
Hefyd yn Bresennol:	Bethan E Jones, Ffion Johnstone (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr)

Eitem		Camau Gweithredu
1.	Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau Croesawodd Y Cyngorydd Roberts bawb i'r cyfarfod, gwnaethpwyd cyflwyniadau a nodwyd yr ymddiheuriadau fel uchod.	
2.	Cofnodion a champau gweithredu o'r cyfarfodydd diwethaf. Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth fel gwir gofnod o'r cyfarfod.	
3.	<u>Diweddariad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy / Sir Ddinbych</u> Roedd BJ (BIPBC) yn bresennol i gyflwyno cynllun Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy / Sir Ddinbych. Dywedodd BJ bod y cynllun lles wedi'i gymeradwyo'n ddiweddar gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae digwyddiadau amrywiol wedi'u cynnal gyda chroestoriad eang o'r gymuned, gyda mewnbwn gan randdeiliaid ynglŷn â'r asesiad o anghenion, datrysiadau a'r camau gweithredu arfaethedig ar gyfer y tymor byr, tymor canolig a'r hirdymor.	

	<p>Roedd yr adborth a dderbyniwyd ar sut allai cynllun lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wneud gwahaniaeth, yn canolbwyntio ar y rhaglen ataliol ac ymyrraeth gynnar, rhannu adnoddau ac arbenigedd, galluogi cymunedau i weithio gyda Phrifysgol Betsi Cadwaladr a'u galluogi i fod yn fwy cadarn.</p> <p>Mae'r cynllun lles yn canolbwyntio ar dri maes blaenoriaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pobl – cefnogi lles meddyliol da i bawb o bob oed • Cymuned – cefnogi ymrymuso'r gymuned • Lle – cefnogi cadernid amgylcheddol <p>Y cam nesaf fydd penderfynu ar ba gamau i'w gweithredu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu grwpiau ffocws; bydd pobl yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn penderfyniadau a bydd cyfle iddynt leisio eu barn. Bydd fframwaith perfformiad yn cael ei ddatblygu i ddangos cynnydd, a bydd y gwaith yn cael ei gyflwyno i'w archwilio ym mhob cyfarfod pwyllgor awdurdod lleol.</p> <p>Holodd GR a oedd peryg o ddyblygu gwaith gan fod cymaint o fyrddau gwahanol yn bodoli a holodd a oedd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unrhyw adborth yn dilyn llythyr diweddar a anfonwyd gan Gadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ynglŷn â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus / Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.</p> <p>Cadarnhaodd BJ fod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio tuag at ddeddfwriaethau gwahanol ac felly'n gweithio mewn dwy ffordd wahanol. Bydd angen i waith y ddau fwrdd gael ei arsylwi a'i archwilio i ystyried sut y bydd y byrddau'n datblygu, ac mae angen cynnal y llifau cyfathrebu rhwng gwaith rhanbarthol y ddau fwrdd a byrddau eraill Gogledd Cymru.</p> <p>Dywedodd JL fod gan gynghorwyr tref a sir gynrychiolaeth ym mhob cyfarfod sy'n ffurfio cysylltiadau cryf ag awdurdodau lleol.</p> <p>Dywedodd BJ fod pobl yn dylanwadu ar waith y bwrdd sy'n ymdrechu i roi grym i bobl gymryd perchnogaeth i ddiogelu'r genhedlaeth nesaf.</p> <p>Roedd DW yn falch iawn o nodi bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnig archwilio gwasanaethau ar draws y ffin a datblygu mynediad at y gwasanaethau traws-sirol.</p> <p>Dywedodd WJ fod y gwaith o rymuso cymunedau i greu adnoddau eisoes yn cael ei gyflawni gan sefydliadau presennol. Soniodd hefyd am y pwysau a wynebir gan gynghorau tref oherwydd anawsterau ddiffyg adnoddau a wynebir drwy recriwtio a chadw clerod cymunedol.</p> <p>Gofynnodd ME a oedd yr adborth a dderbyniwyd ar yr Iaith Gymraeg yn ystod y cam ymgynghori yn ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol neu'r Iaith Gymraeg yn gyffredinol.</p> <p>Pwysleisiodd NA bwysigrwydd cadernid a'r angen i ganolbwyntio ar yr un iaith ar draws y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.</p>	<p>i gynghori ME o ran natur yr adborth a dderbyniwyd.</p>
--	--	--

Diolchodd y Cadeirydd i BJ am ei chyflwyniad.

5 diwrnod mewn ystafell – Diweddariad Canolog

Cafwyd diweddariad gan NS, JW a BJ ar y 5 diwrnod mewn ystafell ar ran yr ardal ganolog.

Casglwyd gwybodaeth drwy ymweld â lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, gydag un diwrnod wedi'i neilltuo i Gyngor Sir Ddinbych, un arall i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac un i ddarparwyr eraill (Y Gwasanaeth Tân, Meddygon Teulu, Arweinydd Cyllid Awdurdod Lleol a darparwr RSL).

Cyflwynwyd storïau'r cleifion, rhai a oedd yn gadarnhaol ac eraill a oedd yn llai cadarnhaol, i ddangos yr heriau sy'n wynebu staff a chleifion o ddydd i ddydd.

Trafodwyd yr heriau sy'n wynebu darpariaeth gwasanaethau mewn cartrefi nyrsio, yn enwedig yr heriau'n ymwneud â thaliadau a materion ariannol. O ganlyniad, gwahoddwyd swyddog cyllid i ymuno â'r drafodaeth.

Trafodwyd gofynion hyfforddi, problemau dewis a phroblemau teuluol ehangach, y polisi meddyginiaeth a phroblemau tai, i alluogi staff i weithio'n wahanol yn y dyfodol.

Roedd materion iechyd sylfaenol, diwylliant hanesyddol o ofal dwys hirdymor a phenderfyniadau'n cael eu gwneud yn rhy fuan yn ei gwneud yn anodd gwneud newidiadau, unwaith i'r sgwrs ddechrau. Roedd diffyg dealltwriaeth o ran ethos cymunedol a chapasiti yn ei gwneud yn anodd deall pa wasanaethau a risgiau oedd yn gallu cael eu rheoli'n ddiogel y tu allan i iechyd. Roedd y Gronfa Gofal Canolradd hefyd wedi cynorthwyo i weld beth a oedd modd ei wneud y tu allan i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae'r ddwy sir wedi buddsoddi mewn gwasanaethau lles a hyfforddiant yn canolbwyntio ar ganlyniadau i alluogi'r gweithlu i symud ymlaen i ffordd arall o weithio a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl yn gynharach, hynny yw staff i fod yn ymwybodol o'r holl wasanaethau sydd ar gael yn y gymuned drwy ymyrraeth ail alluogi.

Roedd y cipolwg o'r prosiectau a ddarparwyd yn cynnwys canlyniadau cadarnhaol a oedd yn canolbwyntio ar unigrwydd ac arwahanrwydd. Roedd enghreifftiau amlwg o gydweithio i'w gweld o fewn hamdden.

Profodd Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal yn heriol o fewn gofal eilaidd a gwelwyd dirywiad mewn IM ochr yn ochr ag arosiadau hirach yn yr ysbyty. Gwelwyd lleihad o ran Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal o ganlyniad i benodiad ThG yn arwain y tîm rhyddhau o safbwynt ail-alluogi.

Mae arweinwyr bellach wedi'u canfod ar gyfer bob un o'r timau adnoddau a fydd yn datblygu'r tîm ymhellach. Bydd pob tîm yn cynnwys set o sgiliau gwahanol. Bydd yr arweinydd yn rheoli'r prosiect ac yn anelu, drwy integreiddiad, i leihau dyblygiad a galluogi staff i fod yn fwy rhagweithiol.

	<p>Mae'r cyflawniadau hyd yma yn cynnwys lleihad yn yr Oedi Wrth Drosoglwyddo Gofal o ran nifer y gwllâu a nifer y diwrnodau, cynnydd o ran argaeledd gwllâu mewn cartrefi gofal a phenodiad swyddog tai i ymdrin â materion tai, yn dilyn cyfnod peilot llwyddiannus.</p> <p>Pwysleisiodd NS fod yr ymagwedd, fel partneriaeth, yn parhau i ganolbwyntio ar IM a PH, gyda newid mewn diwylliant. Yr ased mwyaf yw'r gymuned Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyfan ac mae'n bwysig parhau i fuddsoddi. Mae angen gwneud gwaith pellach ar y dull a sut y bydd hyn yn cael ei reoli, llywodraethu mewn partneriaeth a'r nod o gydweithio.</p> <p>Cydnabu MW y diweddariad a'r adborth ar y darn cadarnhaol hwn o waith. Fodd bynnag, bydd y ddarpariaeth annibynnol yn parhau i fod angen cefnogaeth i gynnal y newidiadau ac adnabod y pwysau o'r hyn fydd ei angen fel comisiynwyr: Gweithio gydag aseswyr BI, Arolygiaeth, ail gofrestru parhaus. Mae taliadau Gofal Iechyd Parhaus yn parhau i fod yn bryder mawr ac yn sefyllfa annerbyniol.</p> <p>Gofynnodd MW i'r BI gadw'r anawsterau sy'n wynebu'r gweithlu mewn cof, yn enwedig recriwtio a chadw o fewn Gofal Cartref o ganlyniad i delerau cyflogaeth gwell o fewn iechyd.</p> <p>Dywedodd DW fod amharodrydd gan ddynion i ddefnyddio'r gwasanaeth, gyda chyfran sylweddol is o ddynion yn defnyddio'r gwasanaeth o gymharu â merched.</p> <p>Roedd WJ o'r farn bod y fethodoleg a ddefnyddiwyd gan ranbarth y Gorllewin, drwy gynnwys y trydydd sector/ y sector annibynnol ar ddechrau'r broses yn rhoi trosolwg gwell o'r sefyllfa gyfan.</p>	
<p>4.</p>	<p>Gweithdy ar yr Adolygiad Seneddol</p> <p><u>Gwaith Grŵp – Grŵp 1 – Adrannau 1 – 4 (Morwenna Edwards)</u></p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Un system ddi-dor ar gyfer Cymru <ul style="list-style-type: none"> • Gwybod yn union ble rydym am fod • Fel rhanbarth, mae angen gwneud gwaith pellach i fynegi'r weledigaeth ar gyfer staff a'r boblogaeth – mewn ffordd y gall pawb ei rhoi ar waith. Ansicr os yw hwn yn ddarn o waith rhanbarthol neu genedlaethol – trafod gyda LIC. • Arweinwyr i wneud mwy o waith lleol ar y rheng flaen – tystiolaeth. 2. Y Nod Pedwarplyg i bawb <ul style="list-style-type: none"> • Mae angen i'r egwyddor gweithlu gyfan gael ei mabwysiadu gan y rhanbarth – gadewch i ni siarad am y mater amlwg. • Gwirio ein system a sicrhau bod gennym system yn seiliedig ar ymddiried mewn staff ac eraill ar bob lefel / gwerthfawrogi pawb waeth beth yw eu rôl neu sefydliad. 3. Modelau beiddgar newydd o ofal di- dor – blaenoriaethau cenedlaethol, darpariaeth leol <ul style="list-style-type: none"> • Gwneud hyn yn arferol mewn ardaloedd – cael enghreifftiau mewn ardaloedd ar draws Gogledd Cymru (lleol ond arolygiaeth ranbarthol). 	

- Deall amodau'r system neu rwystrau sy'n amharu – weithiau'n rhwystrau ymddangosiadol neu'n hanesyddol (lleol ond rhannu'n rhanbarthol).
- Diwylliant gwrth risg a gwneud penderfyniadau amddiffynadwy - cefnogi staff a magu hyder i wneud penderfyniadau ar y rheng flaen. (Sut allwn wneud hyn, a oes ymyrraeth yr ydym yn ei wneud yn rhanbarthol?)

4. Rhoi rheolaeth i'r bobl

- Negeseuon iechyd y cyhoedd – hunan ofal
- Pa faterion sydd angen ailedrych arnynt, yn enwedig o fewn iechyd (deall beth yw'r rhwystrau o safbwynt unigolion).
- Gorddibyniaeth ar lwybrau / arbenigedd 'cael pobl drwyddi'
- Archwilio arloesedd digidol / technolegol fel rhanbarth.

Gwaith Grŵp – Grŵp 2 – Adrannau 3-6 (Bethan Jones)

3. Modelau beiddgar newydd o ofal di- dor

- Blaenoriaethau cenedlaethol, darpariaeth leol. Y Tîm Ail-alluogi Cymunedol yw'r bloc adeiladu ar gyfer hyn ac mae asedau, o'r sector Cartrefi Gofal, gofal ychwanegol, tai, cyllidebau – yn edrych ar sut mae cyllidebau yn cael eu dosbarthu. Rhwystrau i'w gwneud yn fwy hyblyg – rhannu asedau ac adnoddau. Gwaith lleol da yn parhau – tai trydydd sector, adfywio.

4. Rhoi rheolaeth i'r bobl

- Treialu yng Ngogledd Cymru – ymestyn i iechyd. Mae'r system yn anodd ei llywio. Pobl i fod yn ganolbwynt i'r system. Theori system gyfan i'w dad-bigo – heriol. Newid diwylliannol – ceisiadau angen ymwneud â datblygiad. Sicrhau bod y system gywir yn cael ei mabwysiadu ar gyfer y dyfodol.

5. Lle gwych i weithio

- Strategaeth hirdymor ar gyfer y gweithlu, gweithio gydag addysg, pobl ifanc a'u hannog i weithio gyda'r system.
- Sicrhau dealltwriaeth ehangach o anghenion y gweithlu – strategaeth dwf, Wylfa, Airbus ac ati, myfyrwyr STEM. Creu diwylliant i recriwtio a chadw staff.

6. System Iechyd a Gofal sydd o Hyd yn Dysgu

- Gweithio ac adlewyrchu – angen dod â hwn at ei gilydd – academi weledol.
- Dysgu o bwysau'r gorffennol i wella a datblygu'r system.
- Integreiddio'n rhanbarthol – yn well am wneud hyn yn lleol.
- Datblygu ein pobl ein hunain, annog pobl i gymryd cyfrifoldeb a'u galluogi nhw i weithio ar draws y system – academi arweinyddiaeth, cyfle i arweinwyr y dyfodol ddeall y system.

Gwaith Grŵp – Grŵp 3 – Adrannau 5-8 (Alwyn Jones)

5. Lle gwych i weithio

- Wedi trafod cael Strategaeth Gweithlu sy'n gweithio ar draws sectorau – cydnabod gwaith da presennol ynglŷn â'r Strategaeth Gweithlu Cymunedol.
- Bod yn eglur o ran beth yw'r cynnig i'r trydydd sector.
- Hyfforddiant di-dor ar draws y sectorau, cynnig mwy o hyfforddiant y gall pawb gael mynediad ato, hynny yw, ar draws y sector iechyd, gofal cymdeithasol a gwirfoddol. Cyfoethogi'r hyfforddiant.

6. System Iechyd a Gofal sydd o Hyd yn Dysgu

- Dysgu a rhannu buddion y gwaith rydym yn ei wneud. Therapi Celf, Caffi Dementia. Canlyniadau Cadarnhaol.
- Dull cyson o gasglu straeon pobl. Cleifion, Defnyddwyr Gwasanaeth a Phobl.
- Cydnabod bod elfen o risg i'r hyn rydym yn ei wneud, a bod elfen o risg a reolir o ran sut rydym yn dysgu.
- Osgoi Atgasedd Risg.

7. Harnesio Arloesedd a Thechnoleg a Seilwaith

- Ymwybyddiaeth gynyddol o botensial technoleg
- Harnesio'r potensial o bobl yn berchen ar ddyfeisiau, Apiau a ffonau
- Hyrwyddo'r defnydd o gyfarpar Teleiechyd presennol, lledaenu'r negeseuon yn fyd-eang. Angen newid y naratif a darparu negeseuon cadarnhaol yn y system.

8. Alinio dyluniad y System i gyflawni gwell canlyniadau

- Rhannu data ar draws sectorau – ar hyn o bryd rydym yn wrth –risg iawn o ganlyniad i ddiogelu data. Mae rhannu gwybodaeth yn graidd i hyn.
- Systemau sy'n cefnogi adborth ar draws sectorau – cydlynid. Enghraifft gan Ddiogelu wedi'i ddarparu – ond cydnabod bod llawer mwy na hyn.

Gwaith Grŵp – Grŵp 4 – Adrannau 7 – 10 (Siobhan Adams)

7. Harnesio arloesedd a chyflymu datblygiadau technoleg a seilwaith

- Mae rhai awdurdodau yn y rhanbarth bellach yn fyw – wedi rhannu'r rhaglen iechyd / gofal cymdeithasol. Gallu dysgu a rhannu arfer da. Problemau cychwynnol.
- Dipyn yn dal i'w wneud yn y camau cynnar.
- Potensial ar gyfer gwella effeithlonrwydd gwasanaethau drwy gynyddu awtomatiaeth mewn cartrefi ac yn y gymuned. Cydnabod y bydd rhai elfennau dynol bob amser yn angenrheidiol.
- Gallu dysgu gan y diwydiant. Potensial math o dechnoleg debyg i amazon echo.
- Cadw cofnodion ar amser real.
- Gwerth diagnosteg amser real – gartref. Peidio dod â phobl i'r ysbyty ar gyfer diagnosteg/ profion lle bo gofyn am fuddsoddiad.
- Teleiechyd / technoleg wrth reoli clefydau cronig – cadw pobl gartref yn ystod gwaethygiad.
- Anawsterau prosiectau tymor byr a chynlluniau peilot a graddio i fyny a sefydlu mewn busnes craidd pan fo hyn yn llwyddiannus.
- Sut allwn ddefnyddio'r grant arloesi.

Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

- Mae angen i ni wneud gwaith i ddeall beth yw ein blaenoriaethau cyfunol ar gyfer buddsoddiad seilwaith.
- Efallai y bydd angen gweithio ar y cyd â'r sector preifat i ddeall y 'grefft o'r hyn sy'n bosib'.
- Marchnata a chyfathrebu.
- Hunanofal yn gyfrifoldeb unigol.

8. Alinio dyluniad y system i gyflawni canlyniadau

	<ul style="list-style-type: none"> • Set gyffredin o ganlyniadau – fframwaith sengl wedi'i gytuno ar draws asiantaethau. • Mesur y pethau cywir – yr hyn sy'n cael ei fesur sy'n cael ei wneud. • Mae angen i ni alinio ein hymateb i sut rydym yn mynd i'r afael â breguster mewn cymunedau. • Symud i ffwrdd o dargedau proses. • Sut ydym yn gwneud achos am newid yn llwyddiannus. • Rhannu heriau. <p>Diolchodd y Cyngorydd Gareth Roberts i bawb am eu hymatebion. Roedd yn galonogol iawn i nodi nad oedd unrhyw un wedi defnyddio'r gair 'rhwystr' sy'n dangos nodyn cadarnhaol ar gyfer y dyfodol.</p> <p>Sut ydym yn symud ymlaen: Disgwylir gohebiaeth bellach gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin ynglŷn â'r gronfa trawsnewid £50M. Awgrymiadau a wnaed ar gyfer Grŵp Tasg a Gorffen i gael eu creu i edrych ar rai enghreifftiau da a blaenoriaethau allweddol.</p> <p>Yn dilyn trafodaeth bellach ar bwy fyddai'n gyfrifol am y cam gweithredu hwn, penderfynwyd y byddai Grŵp Tasg a Gorffen yn cael ei greu gyda chynrychiolaeth gan LIL a phartneriaid eraill i symud ymlaen.</p>	<p>BJE /RW i drefnu.</p>
<p>5.</p>	<p>Cytuno ar negeseuon allweddol</p> <p>Cyflwyniad ar Gynllun Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy/ Sir Ddinbych Diweddariad Canolog- 5 diwrnod mewn ystafell Gweithdy a chamau nesaf.</p>	
<p>6.</p>	<p>Unrhyw fater arall</p> <p><u>Datganiadau o Ddiddordeb Cynrychiolwyr Gofalwr ac Unigolyn</u> Bydd y Datganiadau o Ddiddordeb Cynrychiolwyr Gofalwr ac Unigolyn yn cael eu hanfon allan yn fuan i recriwtio Cynrychiolydd Gofalwr ac Unigolyn ychwanegol i ymuno â'r Bwrdd cyn gynted â phosib a chynrychiolwyr pellach i ymuno â'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2018. Gall aelodau presennol ailymgeisio.</p> <p>Dywedodd y Cyngorydd JL y byddai ar gael os oedd angen aelod panel.</p> <p><u>Ymateb y Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol i'r Adolygiad Seneddol</u> Cafodd llythyr ymateb (copi wedi'i gynnwys ym mhecyn y cyfarfod) mewn perthynas â llythyr a dderbyniwyd gan LIC ar 11.04.2018 ei symud ymlaen i LIC 19.04.2018. Roedd yr amserlen a roddwyd i ymateb i'r cais hwn yn dynn iawn, ac o ganlyniad nid oedd pob aelod o'r Bwrdd wedi cael cyfle i adrodd yn ôl , er bod yr ymateb yn un ar y cyd gan y Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol.</p> <p>Eglurodd NS fod Cyfarwyddwyr GC wedi mynychu cyfarfod ar 16.04.2018 gyda Albert Heaney ynghyd â'r Gweinidog Huw Irranca-Davies a chymerwyd cyfle i drafod y llythyr a phriodoldeb y cais.</p> <p>Cafwyd eglurder bod y Gweinidog yn edrych am enghreifftiau cydnabyddedig o arferion da. Bydd cyfle pellach i holl aelodau'r bwrdd fwydo i'r ymateb ar benderfyniadau yn y dyfodol.</p>	

	Cymerodd y Cadeirydd y cyfle hwn i ddiolch i BJE a'i thîm ddod â'r ymateb ynghyd ar fyr rybudd.	
	Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Gwener, 18 Mai am 9.00am	